

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

5ed Hydref 2020

Annwyl Gyfaill,

Cynhelir gyfarfod o Gyngor Cymuned Mawddwy **Nos Fercher y 14eg o Hydref 2020 am 7.30pm** yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Pwysleisir fod rhaid dilyn canllawiau clir y Neuadd drwy fynd i mewn o'r Brif Fynedfa, defnyddio y deunydd diheintio, cerdded llwybr un ffordd, a gwisgo mygydau. (manyllion llawn mewn e-bost arwahan)

Bydd Jonathan Cawley, Pennaeth Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri gyda ni ar ddechrau'r cyfarfod.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,
Huw T Jones
CLERC

AGENDA

1. Derbyn ymddiheuriadau.
2. Croesawu Jonathan Cawley, Parc Cenedlaethol Eryri.
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 2ail Medi 2020, gweler gopi yn atodol.
4. Materion yn codi,
 - a) Materion Priffyrdd i'w hadrodd, ac adroddiad am sefyllfa biniau halen y gymuned.
 - b) Mynwentydd sydd yn gyfrifoldeb y Cyngor – derbyn adroddiadau.
 - c) Ymgynghoriad y Parc Cenedlaethol – Amcanion Gwella a Llesiant.
 - d) Pwyllgor yr Hen Fynwent.
 - e) Ty yn wag – stad Haulfryn, Aberangell.
 - f) Eglwys Llanymawddwy.
 - g) Byrddau gwybodaeth.
 - h) Arolwg Parc Cenedlaethol o safleodd Canclwm Siapan.
 - i) Enwau lleoedd o fewn yr ardal.
 - j) Ymgyrch annibynnuaeth I Gymru.
5. Materion Cynllunio
Cais NP5/74/486 – Adeiladu trac mynediad a pont – coetir Nantyrnog
6. Materion Cyllid.
Anfoneb Toiledau Dinas am 2020/21 gan Gyngor Gwynedd.
Adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor hyd yma, o gymharu a'r gyllideb.
7. Gohebiaeth.
8. Unrhyw fater arall